ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

Scroll down for English version

19/08/20

ESBONIAD O'R NEWID I'R GRADDAU ASESU CANOLFAN

Annwyl Ddisgyblion blwyddyn 11 a Rhieni / Gwarcheidwaid,

Fel y gwyddoch erbyn nawr mae'n siŵr, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi newid i'r broses o gymeradwyo graddau ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 eleni. Roedd hyn wrth gwrs yn dilyn anghysondeb y model ystadegol a ddefnyddiwyd gan CBAC wrth safoni graddau Safon Uwch ac UG. Fe wnaeth arwain at annhegwch amlwg i nifer o ddisgyblion bl.12 a 13eg ar draws Cymru, gan gynnwys ein disgyblion ni yn y Chweched.

Mae Cymwysterau Cymru bellach wedi cyhoeddi y bydd disgyblion blwyddyn 11 yn derbyn y radd orau o naill ai;

1. Y 'Gradd Asesu Canolfan' (GAC)
2. Y radd a safonwyd gan fodel ystadegol CBAC.

Gradd asesiad y ganolfan oedd barn broffesiynol yr ysgol o'r radd fwyaf tebygol y byddai myfyriwr wedi'i chael pe bai'r arholiadau wedi mynd ymlaen. Roedd yn seiliedig ar ystyriaeth ofalus o ystod o dystiolaeth, sy'n gynnwys ffug arholiadau, asesiad di-arholiad ac unrhyw gofnod arall o berfformiad myfyrwyr dros y cwrs astudio. Mae pob pwnc wedi ystyried ystod o dystiolaeth addas ar gyfer eu cwrs fyddai cynnwys:

- gwaith cwrs a oedd wedi cael ei gwblhau;
- unrhyw arholiadau neu fodylau blaenorol (arholiadau blwyddyn 10 a rhifedd Tachwedd blwyddyn 11);
- gwaith cwrs ymarferol (ble'n berthnasol i'r pwnc);
- asesiadau llafar (ble'n berthnasol i'r pwnc);
- canlyniadau profion;
- perfformiad yn y dosbarth ac mewn gwaith cartref;
- unrhyw ffactorau perthnasol arall.

Yn ogystal, fe gymerwyd i ystyriaeth unrhyw amodau arbennig y mae disgyblion yn eu derbyn (e.e. amser ychwanegol, ysgrifennydd, darllenydd ayyb) wrth benderfynu ar y graddau asesu canolfan.

Cynhaliwyd nifer o drafodaethau safoni rhwng athrawon, penaethiaid adran a'r tîm arwain i sicrhau bod y graddau yn adlewyrchiad teg o gyflawniad pob disgybl. Cafodd pob gradd eu gwirio, eu cadarnhau gan 2 aelod o staff ac aelod o'r tîm arwain, cyn eu cyflwyno'n derfynol i'r byrddau arholi ar gyfer eu dyddiadau cau ym mis Mehefin.

Hyderwn yn bod y graddau byddwch yn eu derbyn yfory yn adlewyrchiad teg o'ch gwaith a'ch ymdrechion yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf - llongyfarchiadau ar eich gwaith!

Simon Davies

Pennaeth

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Schools
Ysgol sy'n Parchu Hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi Cymru
BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

19/08/20

AN EXPLANATION OF THE CHANGE TO THE CENTRE ASSESSMENT GRADES

Dear Year 11 Parents/Guardians,

As you will no doubt now know, the Welsh government has announced a change to the way they approve GCSE grades for Year 11 pupils this year. This of course followed the inconsistency of the statistical model used by WJEC in standardising A level and AS grades. It led to a marked inequity for many yr. 12 and yr. 13 pupils across Wales, including our sixth form pupils.

Qualifications Wales has now announced that year 11 pupils will receive the best grade of either;

1. The ' Centre Assessed Grade ' (CAG)
2. The grade following standardisation using the WJEC statistical model.

The Centre's assessment grade was the school's professional judgement of the most likely grade a student would have received if the exams had gone ahead. It was based on careful consideration of a range of evidence, which includes mock examinations, non-exam assessment and any other record of student performance over the course of study. Each subject has considered a range of suitable evidence for their course which would include:

- Coursework which had been completed;
- Any previous examinations or modules (Year 10 Examinations and numeracy in November Year 11);
- Practical course work (where relevant to the subject);
- Oral assessments (where relevant to the topic);
- Test results;
- Performance in class and in homework;
- Any other relevant factors.

In addition, any special considerations that pupils receive (e.g. extra time in exams, a scribe, a reader etc.) have been taken into account in determining each pupil's CAG.

Our internal standardisation processes have been rigorous with several discussions were held between teachers, heads of department and the leadership team to ensure that the grades were a fair reflection of each pupil's achievement. All grades were checked, confirmed by 2 members of staff and a member of the leadership team, prior to their final submission to the examination boards for their June deadlines.

We are confident that the grades your child will receive are a fair reflection of their work and their efforts during the last two years. Congratulations on their work!

Simon Davies

Head

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Schools
Ysgol Sy'n Parchu Hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi Cymru School of Rugby
BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales